# DYFRIO DY BLANHIGION

**COFIA**
Rho haen drwchus o gompost ar y pridd i gadw'r dŵr i mewn

1



**Pryd i ddyfrio:** os yw'r pridd yn edrych ac yn teimlo'n sych, mae angen i ti ddyfrio. Mae'n well dyfrio yn y bore os oes modd.

2




**Dyfria'r pridd:** nid y planhigyn. Efallai bydd dŵr ar y dail yn anweddu a ddim yn cyrraedd y gwreiddiau. Mae dail gwlyb yn gallu denu afiechydon ffwngaidd hefyd.

3




**Hadau mewn gwely:** defnyddia dy fysedd i wneud llinell syth yn y pridd. Rhigol rydyn ni'n galw hyn. Dyfria'r rhigolau cyn rhoi'r hadau.

4




**Hadau mewn hambyrddau:** Dyfria'r hadau o'r gwaelod. Rho'r hambyrddau mewn hambwrdd o ddŵr. Bydd y compost yn amsugno'r dŵr.

5



**Planhigion bach:** gall y rhain gael eu niweidio'n rhwydd, felly defnyddia declyn dyfrio pen potel (ar botel blastig wedi'i hailddefnyddio) i wneud y compost yn llaith.

6



**Plannu allan:** Gwna dwll a dyfrio'r twll. Ar ôl i'r dŵr ddraenio i ffwrdd, rho'r planhigyn yn y twll. Llenwa'r twll gyda phridd a gwasgu'r planhigyn i mewn. Dyfria eto tan does dim pwll yn ffurfio.

7



**Coed ffrwythau:** Mewn tywydd poeth neu pan mae'r coed yn ifanc, mae angen o leiaf un llond can dŵr mawr o ddŵr arnyn nhw bob dydd.

8



**Planhigion wedi'u sefydlu:** Rho ddigonedd o ddŵr i'r pridd tua 1-2 waith yr wythnos yn hytrach nag ychydig bach bob dydd. Mae hyn yn rhoi gwreiddiau dwfn yn hytrach na gwreiddiau mân ar yr wyneb.

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES